

Trin Data

Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	CA2 - ystod	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
<p>Didoli a dosbarthu gwrthrychau, gan ddangos y maen prawf y maent wedi ei ddefnyddio.</p> <p>Casglu data a chreu a threfnu tabl. Creu a threfnu rhestr.</p> <p>Casglu gwybodaeth drwy bleidleisio neu ddosbarthu, a'i chynrychioli drwy arlunio neu osod gwrthrychau neu luniau.</p>	<p>Didoli gwrthrychau a'u dosbarthu drwy ddefnyddio mwy nag un maen prawf.</p> <p>Casglu gwybodaeth a chofnodi eu canlyniadau mewn tablau, rhestrau, diagramau a graffiau bloc syml.</p> <p>Casglu data a chreu graff bloc syml. Creu pictogram syml lle mae'r symbol yn cynrychioli un uned.</p>	<p>Casglu, cynrychioli a dehongli data:</p> <p><i>Casglu data ar gyfer amrywiaeth o ddiobenion diffiniedig, gan gynnwys y rhai sy'n codi o'u cwestiynau eu hunain, ac o amrywiaeth o ffynonellau.</i></p> <p><i>Defnyddio a chyflwyno data mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys tablau, pictogramau, siartiau, siartiau bar, graffiau llinell, diagramau, testun a TGCh</i></p> <p><i>Cyfrifo a defnyddio'r modd, y canolrif a'r cymedr ac amrediad o set o ddata arwahanol</i></p> <p>Deall a defnyddio tebygolrwydd:</p> <p><i>Defnyddio iaith bob dydd ar gyfer syniadau cynnar ynglŷn â thebygolrwydd</i></p> <p><i>Gwybod bod tebygolrwydd digwyddiad yn gorwedd rhwng amhosibl a sicr.</i></p>	<p>Dosbarthu gwrthrychau, rhifau neu siapiau yn ôl dau faen prawf a'u danogs ar ddiagram Carroll neu Venn.</p> <p>Casglu data a chreu tabl amledd syml. Defnyddio data o dabl amledd a siart bar gydag echelinau fertigol wedi'u labelu mewn unedau, ac yna mewn deuoedd.</p> <p>Penderfynu pa ddata i'w gasglu a chreu pictogram syml ble mae'r symbol yn cynrychioli dwy uned. Defnyddio rhaglen graffio syml i fewnbynnu ac arddangos data.</p>	<p>Defnyddio diagramau Venn neu Carroll i ddangos gwybodaeth am siapiau neu rifau.</p> <p>Echdynnu a dehongli gwybodaeth a gyflwynir mewn tablau a rhestrau syml. Llunio a dehongli siartiau bar a pictogramau.</p> <p>Casglu data a chreu siart tali. Dehongli siart bar gyda'r echelinau fertigol wedi'u nodi mewn lluosrifau o 2,5,10 neu 20. Defnyddio data a gesglir mewn pwnc arall a chreu pictogram lle mae'r symbol yn cynrychioli nifer o unedau.</p>	<p>Profi damcaniaeth am amlder digwyddiad drwy gasglu data. Creu cronfa ddata syml ar bapur. Llunio a dehongli diagramau amlder.</p> <p>Llunio a dehongli graffiau llinell syml.</p> <p>Defnyddio'r modd ac amrediad set o ddata.</p> <p>Defnyddio cyfleoedd trawsgwricwlaidd i drafod digwyddiadau sydd â chyfle da / gwael o ddiwydd. Deall a defnyddio geirfa syml sy'n gysylltiedig â thebygolrwydd.</p>	<p>Casglu data arwahanol, yn grwpio data lle bo'n briodol. Profi damcaniaeth drwy gwestiynu data mewn cronfa ddata gyfrifiadurol wedi'i pharatoi. Llunio a dehongli graff llinell, ble mae ystyr i werthoedd canolradd.</p> <p>Dehongli siartiau cylch syml, fel rhai sy'n dangos y data mewn cronfa ddata. Dehongli graffiau, diagramau a siartiau cylch.</p> <p>Dechrau cyfrifo cymedr set o ddata. Defnyddio modd a chanolrif fel nodweddion o set o ddata.</p> <p>Trafod digwyddiadau a allai fod â dau ganlyniad sydd yr un mor debygol a'i gilydd, a digwyddiadau gyda dau neu fwy o ganlyniadau sydd yr un mor debygol a'i gilydd.</p> <p>Trafod y gwahaniaeth rhwng theori canlyniadau a'r canlyniadau gwirioneddol.</p>